

## Cyngor Sir Caerfyrddin

### Adolygiad o'r Dosbarthau Pleidleisio, y Mannau Pleidleisio a'r Gorsafoedd Pleidleisio

1. Hysbysir trwy hyn fod Cyngor Sir Caerfyrddin yn cynnal adolygiad o'r dosbarthau pleidleisio, y manau pleidleisio a'r gorsafoedd pleidleisio o fewn y sir.
2. Bydd y Swyddog Canlyniadau (Dros Dro) ar gyfer Etholaeth Seneddol Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro yn gwneud sylwadau ar y cynigion a bydd y sylwadau hynny yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor pan fyddant wedi'u derbyn a byddant ar gael i'w harchwilio yn Swyddfa'r Gwasanaethau Etholiadol, Adeilad 4, Parc Myrddin, Waun Dew, Caerfyrddin, SA31 1HQ.
3. Mae'r manylion ynghylch cynigion y Swyddog Canlyniadau o ran y newid wedi'u cyhoeddi ar ddyddiad yr hysbysiad hwn a byddant yn sail i'r adolygiad hwn.
4. Mae'r Cyngor yn croesawu mewnbwn gan holl drigolion y sir. Gellir gwneud sylwadau ynghylch y trefniadau presennol neu'r trefniadau arfaethedig a pha mor hygyrch ydynt i etholwyr, y sylwadau a wnaed gan y Swyddog Canlyniadau Dros Dro neu unrhyw fater arall sy'n ymwneud â'r adolygiad.
5. Mae'r Cyngor yn croesawu'n arbennig sylwadau gan unrhyw unigolyn neu gorff sy'n arbenigo mewn mynediad i bobl sydd ag unrhyw fath o anabledd ynghylch y cynigion, sylwadau'r Swyddog Canlyniadau Dros Dro neu unrhyw fater arall sy'n ymwneud â'r adolygiad.
6. Lle bo'n briodol, dylai unigolion neu gyrff sy'n gwneud sylwadau gynnig trefniadau amgen os yw hynny'n bosibl.
7. Mae'r cynigion ar gael i'w harchwilio yn swyddfa'r Gwasanaethau Etholiadol (cyfeiriad uchod) ac ar y wefan: [www.sirgar.llyw.cymru](http://www.sirgar.llyw.cymru)
8. Dylai sylwadau gael eu cyfeirio at Amanda Bebb yn y Gwasanaethau Etholiadol (cyfeiriad uchod) neu drwy e-bost at [Abebb@sirgar.gov.uk](mailto:Abebb@sirgar.gov.uk)
9. Bydd yr adolygiad yn cael ei gynnal rhwng 23 Ionawr a 27 Chwefror 2019. Bydd yr argymhellion terfynol yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor ym mis Gorffennaf 2019.